**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd Cyngor Cymuned Llandybïe, a gynhaliwyd arlein drwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Iau, Chwefror 15fed, 2024 am 7. 30yh.**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | | |
| Cynghorwyr | Mrs A. J. Evans<br>P. H. Roberts<br>Mrs C. Thomas | D. Thomas<br>J.W. Tandy |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs K. D. L Davies<br>D. Hopkins | S. Roberts |
| **Absennol:** | I. Rh. Llewelyn | |

**343.**

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**344.**

**Materion yn codi o gyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar Dachwedd ---, 2023.**

Roedd y Clerc am nodi ei fod yn cywiro cofnodion cyfarfod mis Tachwedd i adlewyrchu bod pwynt 346 yn cyfeirio at y ffaith bod Clymog Siapan yn gyffredin yng nghyffiniau Neuadd Saron yn hytrach na Banc Y Draenen.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau ei fod derbyn dyfynbrisiau am lechi am gyfanswm cost, cyn TAW, o £1,822.45 a byddai'n gosod hyn gerbron y Cyfarfod Cyffredin a gynhelir ar Chwefror 27ain i'w gymeradwyo; bydd cais bod y Polisi Cyfarfodydd Ddi-bapur yn weithredol o Ebrill 1af, 2024 ymlaen yn cael ei wneud yn yr un cyfarfod.

**345.**

**Ystyried y Cynllun Gweithredu ar gyfer Banc Y Ddraenen.**

Eglurodd y Clerc bod y cynllun gweithredu a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd erbyn hyn ar darged, ac roedd wedi cynnal tri chyfarfod safle ym Manc Y Ddraenen gyda chynrychiolwyr Un Llais Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin. Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn ystyried grantiau o'r Gronfa Treftadaeth Naturiol a Cadwch Cymru'n Daclus, sy'n cynnig 100% o gostau prosiect gyda chefnogaeth swyddog. Roedd yna wedi cyfeirio at y cynllun prosiect a ddosbarthwyd yn flaenorol sy'n adlewyrchu'r cynnydd hyd yn hyn, a gwahoddodd unrhyw sylwadau.

Cadeirydd

Gofynnodd y Cynghorydd J. W. Tandy bod gwelliannau'n cael eu hystyried, i gynnwys plannu'r berllan yn rhan D o'r cynllun yn ogystal â rhan C, a bod mynediad yn cael ei ychwanegu oddiar Heol Waterloo er mwyn darparu 'mynediad drwodd' haws a gwell i'r safle; byddai hyn yn ategu at ychwanegu'r clawdd dwbl. Gofynnodd hefyd bod mynediad i'r anabl yn cael ei ystyried yn fanwl ger y mynediad, a thrwy ymuno'r llwybr drwy rhan D i gysylltu â rhan E.

Roedd y Cynghorydd A. J. Evans a'r Cynghorydd C. Thomas ill dau yn cytuno, ac wedi gofyn bod y newidiadau hyn yn cael eu hystyried.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn cwrdd â'r asiantaethau priodol ac yn trafod y gwelliannau.

Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod llythyron o gefnogaeth ac adborth wedi'u hanfon at y dair ysgol gynradd, a thair Adran Feithrin er mwyn ennyn diddordeb y sector addysg.

Roedd y Clerc hefyd wedi dosbarthu'r llythyr a'r poster/daflen roedd wedi'u llunio, i'w dosbarthu ganddo â llaw drwy ddrysau'r ystâd ac i fusnesau ac adeiladau cyhoeddus ledled yr ardal.

Roedd y Cynghorydd J. W. Tandy o'r farn nad oedd angen cwestiynu'r cynnwys a'r geiriad, ond wedi gofyn os oedd modd argraffu rhagor o gopïau a'u dosbarthu yn Saron, Penygroes, Capel Hendre ac ar hyd Heol y Llew Du, er mwyn cynnig mewnbwn cymunedol ac ymgysylltu ehangach. Croesaw-wyd hyn gan y Cynghorydd A. J. Evans a'r Cynghorydd C. Thomas.

Gofynnodd y Cynghorydd P. H. Roberts bod y Clerc yn holi os oedd modd ystyried costau cludo plant ysgol i'r safle mewn unrhyw gais am grant; roedd y Clerc wedi nodi hyn ac wedi cytuno i archwilio'r mater.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn cwrdd â'r asiantaethau priodol**,** yn trafod y gwelliannau a'r sylwadau ac yn ystyried dosbarthu'r poster/daflen yn ehangach.

**346.**

**Trafod y Cynllun Plannu Coed ym Manc y Ddraenen a'r gyllideb Plannu Coed Cymunedol ehangach.**

Eglurodd y Clerc ei fod yn cwrdd â Matthew Collinson o Gyngor Sir Caerfyrddin i drafod y cynllun, a ddosbarthwyd yn flaenorol, i blannu coed ar ystâd Banc Y Ddraenen. Roedd y cynghorwyr a oedd yn bresennol wedi cytuno i'r fenter ac wedi croesawu ymyrraeth y Sir. Roedd y Clerc wedi cytuno cynnwys y gymuned yn y gwaith plannu.

Roedd y Clerc hefyd wedi cadarnhau y byddai, yn y cyfarfod, yn gofyn cyngor ynghylch y Coed Leylandii yng Nghwmgwili. Gofynnodd y Cynghorydd P. H. Roberts bod y Clerc yn archwilio'r datblygiad diweddar, sef bod Cymdeithas Lesiant

Cadeirydd

Cwmgwili yn chwilio am arian grant ar gyfer neuadd newydd, a bod angen ystyried hyn pan yn cymryd unrhyw gamau gweithredu, neu ddileu ac ail-osod y coed. Roedd y Clerc hefyd wedio cadarnhau y byddai'n dilyn cyngor y Sir ynghylch plannu coed yn gyffredinol ar draws y cymunedau, fel y cytunwyd yn y cyfarfod cyllid lle y clustnodwyd £1,000 ar gyfer plannu coed yn y gymuned.

**Argymhellwyd** bod y Clerc, mewn cydweithrediad â'r Gymdeithas Lesiant a Chyngor Sir Caerfyrddin, yn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn o ran perchnogaeth a phrydles, bod y mater yn cael ei gynnwys ar agenda cyfarfod nesaf Pwyllgor yr Amgylchedd, a bod y Clerc yn cydweithio gyda'r Cyngor Sir i gwblhau'r plannu coed ym Manc y Ddraenen.

**Argymhellwyd** bod y syniad yn cael ei ddodi gerbron y pwyllgorau priodol y soniwyd amdanynt, a'i drafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Llawn.

**347.**

**Trafodaeth ynghylch Neuaddd Saron, Llwybrau Cerdded a Gerddi.**

Roedd y Clerc wedi rhoi diweddariad i'r aelodau ynghylch y cyfarfod yr oedd ef a'r Cadeirydd wedi cynnal gyda chynrychiolydd o Neuadd Saron, i drafod cymorth i atgyweirio'r llwybr cerdded, yr ardd gymunedol ac i waredu'r Clymog Siapan sy'n gyffredin ar yr safle.

Roedd y Clerc o'r farn y dylid cynnal cyfarfod arall i ystyried prosiectau ar y safle i'w cynnwys yn grantiau cymunedol a chyllideb gymunedol y flwyddyn nesaf. Roedd hefyd yn teimlo bod modd archwilio i'r defnydd o arian Adran 106. Roedd y Cadeirydd, y Cynghorydd C. Thomas, yn cytuno â hyn, ac o'r farn bod y neuadd yn ased allweddol i gymuned Saron, a dylid ei gwarchod a'i meithrin.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn trefnu cyfarfod i ymchwilio'r costau a'r cydweithio posibl gyda Neuadd Saron, ac i gynnwys y Cynghorydd K. D. L Davies yn y trafodaethau, ynghyd â'r Cynghorydd C. Thomas.

**348.**

**Trafodaeth ynghylch Datrysiadau Gwresogi Gwyrdd ar gyfer canolfannau cymunedol allweddol.**

Dywedodd y Clerc ei fod o'r farn bod angen ystyried trafod ceisiadau am grant yn y dyfodol oddiwrth y canolfannau cymunedol allweddol wedi'i i'r Cynghorydd A. J. Evans godi'r mater yn y Cyfarfod Cyffredin diwethaf ym mis Ionawr 2024.

Bu trafodaeth gan y Cynghorydd A. J. Evans a'r Cynghorydd J. W. Tandy, a'r farn gyffredinol, a gefnogwyd gan y Cadeirydd, y Cynghorydd C. Thomas, oedd y dylid ehangu'r cynllun rheoli asedau cyfredol sy'n cael ei baratoi gan y Clerc i gynnwys costau gwresogi mwy gwyrdd yn y dyfodol yn y canolfannau allweddol. Roedd y Cynghorydd J. W. Tandy wedi atgoffa'r Clerc ei fod wedi trosgwlyddo'r wybodaeth

Cadeirydd

ynghylch y gefnogaeth asiantaeth amrywiol sydd ar gael i gynnig cyngor arbenigol yn y maes hwn.

**Cytunwyd** bod y Clerc yn dilyn i fyny ynghylch y gefnogaeth asiantaeth, ac yn datblygu cynllun ar sail perthynas waith agosach gyda’r canolfannau allweddol o ran cynlluniau amgen gwyrdd. Hefyd i archwilio’r galw tebygol ar gyllid y cyngor cymuned, gan adlewyrchu’r cais a wnaethpwyd yn y Pwyllgor Cyllid blaenorol am adolygiad, a bod cydweithio’n agosach yn cael ei amlygu mewn ymarfer cynllunio at y dyfodol.

**349.**

**Diweddariad ynghylch Swyddfa a Chyfarfodydd Ddi-bapur.**

Roedd y Clerc wedi cadarnhau, fel y soniwyd yn y drafodaeth flaenorol yn ystod y cyfarfod, ei fod wedi derbyn dyfynbris derbyniol i gyflenwi Llechi TG er mwyn mabwysiadu’r polisi Cyfarfodydd Ddi-bapur, a’i osod gerbron y Cyfarfod Cyffredin nesaf, i’w gadarnhau, a’i fod yn bwriadu gwneud cais bod Cyfarfodydd Ddi-bapur yn dechrau o Ebrill 1af 2024 ymlaen.

Mae’r adroddiad Swyddfa Ddi-bapur yn cael ei ddatblygu, a bydd yn orffenedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

**Argymhellwyd** bod y Clerc y gosod y camau hyn gerbron y Cyafarfod Cyffredin nesaf, i’w cymeradwyo.

**350.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 7yh.

________________________

Cadeirydd